# Offer Gwella Ansawdd Canser y Geg

**Rhagarweiniad**

Mae'r offeryn hwn wedi cael ei ddatblygu gan AaGIC i helpu timau deintyddol gofal sylfaenol i ystyried ffactorau sy'n berthnasol i ganser y geg ac anghenion eu cleifion. Mae wedi'i ddylunio i gael ei ddefnyddio gan holl dîm y practis - gallai pob aelod o'r tîm deintyddol, yn rhai clinigol ac anghlinigol, fod yn cyfrannu at ddarparu gofal a chyngor i gleifion

**Cefndir**

Mae mwy na 60% o gleifion canser y geg yng Nghymru yn cael diagnosis cyfnod 3 neu 4. Mae diagnosis cyfnod cynnar yn gysylltiedig â chyfradd goroesi gwell, ac mae canserau sy'n cael eu canfod pan maent yn llai na 2cm mewn diamedr yn gysylltiedig â phrognosis gwell.

**NOD**

**Prif nod yr Offeryn GA Canser y Geg yw rhoi cymorth i dimau deintyddol wella eu cyfraniad tuag at ddiagnosio canser y geg yn gynnar.**

**AMCANION**

Drwy ddefnyddio offer GA Canser y Geg, a meddwl am y canfyddiadau, dylai hynny arwain at y canlynol:

- Canfod yr angen am hyfforddiant ar ganser y geg, gan gynnwys sut i drafod amheuaeth fryd o ganser gyda chleifion. Mae'r offeryn yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau a hyfforddiant sydd ar gael i bractisiau
- Pob aelod o'r tîm yn cael gwybod am y prif ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol ar gyfer canser y geg
- Asesu'n well a chadw cofnod o archwiliad meinwe feddal a thrafod ffactorau risg
- Mwy o ymwybyddiaeth gan gleifion o ffactorau risg ac amddiffynnol canser y geg, gan gynnwys yr arwyddion cynnar mwyaf cyffredin o ganser y geg a'r angen i gael asesiad o'r geg
- Darparu gweithgareddau ataliol wedi'u targedu i bobl sydd â mwy o risg o ddatblygu canser y geg, gan gynnwys darparu ymyriadau byr ac atgyfeirio i wasanaethau priodol (e.e. gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu)
- Myfyrio a dysgu o'r adborth pan fydd cleifion yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer barn arbenigol / trin annormaleddau meinwe feddal ac achosion brys lle'r amheuir canser (e.e. Trafod achosion gyda chydweithwyr, adolygiad gan gydweithwyr ar gleifion meddygaeth y geg ac ati)
- Hunan-sicrwydd fod y tîm deintyddol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i leihau'r risg o ganser y geg i 'boblogaeth eu practis' a lleihau'r risg o ddiagnosis hwyr
- Ymarfer archwilio cyfleoedd i sefydlu llwybrau atgyfeirio rhwng y practis a'r timau gofal sylfaenol a chymdeithasol lleol eraill (e.e. derbyn atgyfeiriad am gleifion o wasanaeth meddygol cyffredinol, fferyllfa, timau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad deintyddol a vice versa)

**Mae'r offeryn hwn yn cynnwys 5 adran:**

1. Canfod Ffactorau Risg y Claf – Asesiad Clinigol
2. Trafod Risg, Darparu Cyngor a Gwybodaeth
3. Cleifion sydd â Chyflyrau Malaen neu Gyflyrau a allai fod yn Falaen
4. Hybu Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd
5. Hyfforddiant ac addysg

**Ar gyfer y rhan fwyaf o adrannau, mae disgwyl i'r ymatebwyr nodi lefel eu hyder yn y tîm o ran delio â phob pwynt:**

| | | |
|---|---|---|
| Gwyrdd<br>Hyderus | Ambr<br>Ychydig yn hyderus | Coch<br>Ddim yn hyderus o gwbl |

**Mae'r colofnau eraill yn gofyn i'r tîm nodi sut gallant wneud gwelliannau, a pha hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael i roi cymorth:**

| **Beth allwn ni ei wneud?** | **Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm** |
|---|---|
| **Defnyddiwch y golofn hon i ddisgrifio camau i godi safonau yn y practis er mwyn cyrraedd y lefel werdd** | **Mae hyn yn darparu dolen at adnoddau a gwybodaeth benodol i gefnogi'r tîm.** |

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

## 1. Canfod Ffactorau Risg y Claf ac Asesiadau Clinigol

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | Beth allwn ni ei wneud? | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae’r hanes meddygol, cymdeithasol ac o ran cyffuriau yn nodi ffactorau risg:<br>• Cynnyrch ysmygu a thybaco<br>• Cnoi cneuen betel (neu rywbeth tebyg)<br>• Alcohol<br>• Amlygrwydd i olau haul (gallai fod yn gysylltiedig â galwedigaeth)<br>• Brechlyn HPV ar gyfer grŵp oedran perthnasol | | | | | **Gateway C- Adnodd Canser y Pen a'r Gwddf**<br>Canser y Pen a'r Gwddf - GatewayC<br><br>**Hwb DPP BDA - Pecyn Cymorth Adnabod Canser y Geg BDA-CRUK**<br>Dysgu a datblygu yn y BDA<br><br>**Modiwl DPP Ar-lein AaGIC**<br>Canser y geg - AaGIC<br><br>**Strategaeth Rheoli Tybaco i Gymru**<br>Cymru ddi-fwg: Ein strategaeth rheoli tybaco hirdymor [HTML] \| LLYW.CYMRU |
| Mae archwiliad mewnol ac allanol o'r geg yn cynnwys pob meinwe feddal/pen a gwddf | | | | | |

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | **Beth allwn ni ei wneud?** | **Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae’r canfyddiadau’n cael eu cofnodi’n gynhwysfawr yng nghofnod y claf, h.y. Cofnodi a ganfuwyd annormaledd ai peidio | | | | | |
| Tynnu ffotograffau clinigol os oes angen | | | | | |

**2. Trafod Risgiau a Darparu Cyngor a Gwybodaeth**

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | Beth allwn ni ei wneud? | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|---|---|
| I gleifion sydd â ffactorau risg wedi'u canfod: | | | | | **Archwiliad Integreiddio Rhoi'r Gorau i Ysmygu AaGIC**<br>[Integreiddio rhoi'r gorau i smygu - AaGIC (ngs.cymru)]<br><br>**Helpa Fi i Stopio**<br>https://www.helpafiistopio.cymru/<br><br>**Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Rhoi'r Gorau i Ysmygu a Hyfforddiant**<br>http://elearning.ncsct.co.uk/vba_wales-launch<br><br>**E-Ddysgu NCSCT - Hyfforddiant ac Asesu Ymarferwyr Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru**<br>e-ddysgu NCSCT<br><br>**e-ddysgu GIG (GBCG) MECC - Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif)**<br>MECC // Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd :: E-Ddysgu<br><br>**Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd**<br>https://mecc.publichealthnetwork.cymru/cy/resources/lifestyle-info/smoking/ |
| • Mae aelodau'r tîm yn trafod y risgiau ac yn rhoi cyngor ac arweiniad | | | | | |
| • Mae pob ysmygwr sydd â diddordeb mewn rhoi'r gorau i ysmygu yn cael eu cyfeirio at "Helpa Fi i Stopio" gan ddefnyddio'r system atgyfeirio ar-lein | | | | | |

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | Beth allwn ni ei wneud? | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|---|---|
| • Mae'r cleifion yn cael eu galw'n ôl ar adegau priodol | | | | | **Canllawiau Adalw NICE** https://www.nice.org.uk/guidance/cg19/chapter/Introduction<br><br>**Canllawiau NICE - Newid Ymddygiad: Dulliau Unigol** Trosolwg \| Newid ymddygiad: ymagweddau unigol \| Arweiniad \| NICE<br><br>**GIG Cymru - Cyngor ar alcohol** Cyngor ar Alcohol - NHS (www.nhs.uk)<br><br>**Ymgyrch a Hyfforddiant Alcohol 'Cael Gair'** Adnabod Alcohol a Chyngor Cryno - e-ddysgu ar gyfer gofal iechyd (e-lfh.org.uk) |
| • I gleifion sydd ag annormaledd sydd angen cael ei fonitro yn y practis, mae systemau'n bodoli i asesu'r claf yn rheolaidd ac i sicrhau y bydd cleifion sy'n peidio â mynychu yn cael eu dilyn i fyny | | | | | |

## 3. Cleifion sydd â Chyflyrau Malaen neu Gyflyrau a allai fod yn Falaen

Mae disgwyl i dimau'r practis ddarparu gofal fel mater o drefn drwy gydol eu triniaeth

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | **Beth allwn ni ei wneud?** | **Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae pob claf yn cael ei atgyfeirio drwy ddefnyddio'r system e-atgyfeirio | | | | | **Llwybr System E-Atgyfeirio**<br>**[https://www.dental-referrals.nhs.wales/dentists/cancer/](https://www.dental-referrals.nhs.wales/dentists/cancer/)**<br><br>**Cymdeithas Deintyddiaeth Gofal Arbennig Prydain**<br>**BSSCD**<br><br>**Canllawiau Atgyfeirio Canser NICE**<br>**Trosolwg \| Amau canser: adnabod ac atgyfeirio \| Arweiniad \| NICE**<br><br>**BISOM Cymdeithas Meddygaeth y Geg Prydain ac Iwerddon - Cyfarwyddyd i Gleifion**<br>**Oral-Cancer-PIL.pdf (bisom.org.uk)** |
| Mae systemau'n bodoli yn y practis i wneud y canlynol: | | | | | |
| a) olrhain atgyfeiriadau i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld o fewn pythefnos | | | | | |
| b) sicrhau bod rheolaeth barhaus ar gleifion yn cynnwys galw'n ôl i'r practis ar adegau priodol | | | | | |
| c) canfod methiant â mynychu'r practis, gan nodi a dilyn i fyny | | | | | |

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | **Beth allwn ni ei wneud?** | **Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm** |
|---|---|---|---|---|---|
| d) Sicrhau bod gohebiaeth/argym-hellion gan ofal eilaidd yn cael eu hymgorffori yng ngofal a nodiadau'r claf | | | | | |
| e) Mae'r tîm clinigol yn meddwl am bob agwedd ar ofal i gleifion sydd wedi cael cadarnhad bod ganddynt ganser y geg – gan gynnwys asesiad cychwynnol, cyngor, atgyfeirio, ôl-ofal, adborth gan wasanaethau gofal eilaidd. | | | | | |

## 4. Hybu Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | Beth allwn ni ei wneud? | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae tîm y Practis yn cymryd rhan ym Mis Gweithredu ar Ganser y Geg | | | | | **Mis Gweithredu ar Ganser y Geg**<br>[https://www.dentalhealth.org/Pages/Category/mouth-cancer-action-month](https://www.dentalhealth.org/Pages/Category/mouth-cancer-action-month) |
| Mae tîm y Practis yn hybu'r brechlyn HPV ymysg grwpiau targed | | | | | **Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Frechiadau HPV**<br>Brechiadau plant hŷn ac oedolion ifanc \| LLYW.CYMRU |
| Mae tîm y Practis yn cael cysylltiad â grwpiau o'r Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau Deintyddol Lleol i wella llwybrau a rhwydweithiau lleol (meddygaeth y geg/canser y geg). | | | | | **Brechiadau HPV Iechyd Cyhoeddus Cymru**<br>Brechlyn HPV - Iechyd Cyhoeddus Cymru (ngs.cymru)<br>Brechlyn HPV - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales)<br><br>**Cancer Research UK - Canser y GeG ac Oroffaryngeal**<br>Canser y geg \| Cancer Research UK<br><br>**Cymorth Canser Macmillan**<br>Canser y geg \| Cymorth Canser Macmillan<br><br>**Elusen Changing Faces**<br>https://www.changingfaces.org.uk/<br><br>**Mouth Cancer Foundation**<br>https://www.mouthcancerfoundation.org/<br><br>**Erthygl BDJ Canser y Geg: Presentation, Detection,** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **and Referral in Primary Dental Care** **https://www.nature.com/articles/sj.bdj.2018.931** |

## 5. Hyfforddiant ac Addysg i bob aelod o'r tîm

| Mae pob aelod o'r tîm wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymwybyddiaeth o ganser y geg yn ystod y 24 mis diwethaf: | HYFFORDDWYD A GALL DDARPARU TYSTIOLAETH (LLYTHRENNAU CYNTAF) | ANGEN HYFFORDDIANT (LLYTHRENNAU CYNTAF) | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|
| Deintyddion | | | **Cynllun DPP Gwell**<br>https://www.gdc-uk.org/professionals/cpd/enhanced-cpd |
| Hylenydd deintyddol a therapyddion | | | |
| Nyrsys deintyddol | | | |
| Staff anghlinigol | | | |

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | Beth allwn ni ei wneud? | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae deintyddion ac aelodau eraill o'r tîm clinigol yn teimlo eu bod yn gallu canfod a chofnodi annormaleddau (a allai fod yn ganser y geg) | | | | | **Modiwl DPP Ar-lein AaGIC**<br>Canser y geg - AaGIC<br><br>**Gateway C- Adnodd Canser y Pen a'r Gwddf**<br>Canser y Pen a'r Gwddf - GatewayC<br><br>**Hwb DPP BDA - Pecyn Cymorth Adnabod Canser y Geg BDA-CRUK**<br>Dysgu a datblygu yn y BDA |

| | Hyderus | Ychydig yn hyderus | Ddim yn hyderus o gwbl | Beth allwn ni ei wneud? | Hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r tîm |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae aelodau'r tîm yn teimlo eu bod yn gallu trafod yr annormaledd gyda chleifion, gofalwyr a pherthnasau | | | | | **System e-Atgyfeirio Ddeintyddol** [https://www.dental-referrals.nhs.wales/dentists/](https://www.dental-referrals.nhs.wales/dentists/) |
| Mae deintyddion ac aelodau eraill o'r tîm clinigol yn teimlo eu bod yn gallu trafod llwybrau a chanlyniadau posibl gyda chleifion sy'n cael eu hatgyfeirio fel achosion brys lle'r amheuir canser | | | | | **Atgyfeiriad Meddygaeth Geneuol** Meddygaeth y Geg \| Deintyddol Cymru (nhs.wales) |